

From: [SHONED GRIFFITH](#)
To: [Glyn Rhonwy Pumped Storage Scheme](#)
Subject: Re: Glyn Rhonwy Pumped Storage - EN010072
Date: 07 August 2016 22:26:35
Attachments: [Llythyr datgan pryderon Glyn Rhonwy.docx.doc](#)
[Llythyr ymateb yn dilyn cyfarfod \(S\).doc](#)
[Llythyr ymateb yn dilyn cyfarfod \(C\).docx](#)

Annwyl Syr/Madam

Ymhellach I dderbyn yr e-bost isod, trafodwyd y mater yn ein cyfarfod o'r Cyngor Cymuned yn Waunfawr yn ddiweddar a hoffwn ategu yr hyn sydd eisioes wedi ei anfon atoch mewn llythyrau blaenorol, ac yn y cyfarfod cyhoeddus yn Llanberis ble i'r Cadeirydd ategu ein pryder ynglyn a diogelwch ar hyd y ffordd. (copi wedi ei amgaeu)

Yn ychwanegol i'r hyn rydym wedi ei anfon atoch yn flaenorol ynglyn a'r ffordd i'r safle ddim yn addas ar gyfer cerbydau trwm, bu I ni dderbyn galwad yn ddiweddar fod car wedi mynd i'r ffoes ar hyd ochr y ffordd i'r safle a bu I ni fynd yno I dynnu llun er mwyn tystiolaeth. Dim dyma y tro cyntaf I hyn ddigwydd, ac wrth basio loriau mawr ar hyd y ffordd ni fydd lle I basio. Amgaewn gopi o'r llun er gwybodaeth ichi. Mae'r ffordd yn beryglus iawn I gerbydau a cerddwyr pan mae 2 gar yn trio pasio heb son am loriau trwm.

Rydym wir yn gobeithio y byddwch yn cymryd yr hyn sydd wedi ei ategu I chi I ystyriaeth pan yn cysidro y cais yma.

Yn gywir

Shoned Rees Griffith
Clerc

-----Original message-----

From : GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk
Date : 20/07/2016 - 12:31 (GMTDT)
To : griffith.tyawelog@btinternet.com
Subject : Glyn Rhonwy Pumped Storage - EN010072

Glyn Rhonwy Pumped Storage - EN010072

Dear Sir/Madam

Your reference: GRPS-SP018

Please follow the links below to view the notification of a procedural decision and request for further information

English Version:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010072-001347>

Welsh Version:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/EN010072-001384>

If a link does not open automatically, please cut and paste it into your browser.

Yours faithfully

Glyn Rhonwy Case Team
3D Eagle Wing
The Planning Inspectorate
Temple Quay House
Temple Quay
Bristol
BS1 6PN

Email: GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk
Helpline: 0303 444 5000

Web: www.planningportal.gov.uk/planninginspectorate (Planning Inspectorate casework and appeals)

Web: www.planningportal.gov.uk/infrastructure (Planning Inspectorate's National Infrastructure Planning portal)

Twitter: [@PINSgov](https://twitter.com/PINSgov)

This communication does not constitute legal advice.

Please view our [Information Charter](#) before sending information to the Planning Inspectorate.

Correspondents should note that all communications to or from the Planning Inspectorate may be automatically logged, monitored and/or recorded for lawful purposes.

This email and any files transmitted with it are confidential and intended solely for the use of the individual or entity to whom they are addressed. If you have received this email in error please notify the system manager.

This footnote also confirms that this email message has been scanned by Websense Email Security Gateway for the presence of computer viruses.

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.
For more information please visit <http://www.symanteccloud.com>

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Ty Awelog, Waunfawr, CAERNARFON, Gwynedd. LL55 4AZ.
Clerc: Shoned Rees Griffith ☎ 01286 650136 ✉ griffith.tyawelog@btinternet.com

4 Mawrth 2016

Yr Arolygaeth Gynllunio
3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol
BS1 6PN

Eich Cyf: EN010072

Annwyl Syr/Madam

Deddf Cynllunio 2008 a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio 2010)

Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Ltd ar gyfer Gorchymyn yn Rhoi Caniatad Datblygu ar gyfer Cynllun Storfa Bwmp Glyn Rhonwy.

Hysbysiad o Gyfarfod Rhagarweiniol ar 8 Mawrth 2016, amserlen archwilio draft a materion eraill.

Ymhellach i dderbyn gohebiaeth ganddoch dyddiedig 9 Chwefror 2016 ynglyn a'r mater uchod, bu i Gyngor Cymuned Waunfawr drefnu cyfarfod arbennig ar yr 2il o Fawrth i drafod y mater ymhellach.

Fel rwyf eisoes wedi esbonio yn yr e-bost rydym wedi ei anfon atoch ar y 3ydd o Fawrth nid ydym yn sicr o sefyllfa y Cyngor Cymuned o ran ein statws ffurfiol, gan i chwi nodi yn y llythyr fod ganddom statws ffurfiol o dan y PA2008 fel 'parti a buddiant' yn y broses archwilio gan ein bod wedi gwneud 'sylw perthnasol' ynglyn a'r cais yn y gorffennol, ond rydym wedi derbyn e-bost gan y Cwmni Snowdonia Pumped Hydro yn cadarnhau nad oes ganddom statws ffurfiol gan na fu i ni gofrestru cyn y 15fed o Ionawr 2016.

Yn sgil hyn rydym yn amlinellu isod beth yw pryderon a sylwadau y Cyngor Cymuned ynglyn a'r datblygiad uchod, a gobeithio y bydd rhain yn cael eu cymrud i ystyriaeth yn ystod y broses.

1. Y ffordd i'r safle o bentref Waunfawr- ffordd gul iawn, ddim yn addas ar gyfer lorïau a chroesffordd beryglus iawn i groesi'r ffordd i'r safle.
2. Lefel y traffic ychwanegol fydd ar hyd y ffordd anaddas yma, a'r effaith ar drigolion lleol.
3. Defnyddi'r rhan o'r ffordd gan blant sy'n mynd i'r ysgol, a bws yr ysgol uwchradd, bydd rhaid gofalu bod dim lorïau yn trafaelio i'r safle yn ystod yr amser a'r amser pan fydd y plant yn dod adref.
4. Eiddo sydd wedi ei leoli ar ochr y ffordd i'r safle, mae rhan fwyaf o'r tai yn fythynod traddodiadol a gall effaith yr holl lorïau trwm yn mynd heibio'r tai eu difrodi.
5. Llwybrau cyhoeddus yn cael eu hail-gyfeirio a'u cau – effaith ar drigolion lleol sy'n cerddad y

llwybrau.

6. Ansawdd y dwr o'r gorlif i Nant y Betws ac yna i'r Afon Gwyrfa. Nodwyd fod rhai trigolion y pentref yn defnyddio'r dwr yma ar gyfer ei yfed, a beth fydd effaith hyn ar fywyd gwyllt yn yr Afon Gwyrfa?
7. Pam bod angen defnyddio cymaint o dir?
8. Gwriad i'r ffordd werdd, a dargyfeirio y ffordd i'r Maes Parcio newydd, mae'r ffordd yma yn darparu ar hyn o bryd a fydd y ffordd newydd cystal?
9. Effaith i'r olygfa o ben Moel Eilio a mynyddoedd eraill o'n cwmpas sy'n bwysig iawn i bobl sy'n ymweld a'r ardal, ac yn ei werthfawrogi fel ac y mae.
10. Roedd teimladau y Cynghorwyr yn gryf iawn bod y ffordd i'r safle yma, ac yn wir y safle yn ran bwysig iawn o bentref Waunfawr. Mae'r ffordd sy'n arwain at y safle yn ran o gylch cerdded o amgylch y pentref sy'n bwysig iawn o ran cymdeithasu yn lleol a cwrdd a thrigolion pan yn mynd am dro. Y safle yng Nghefn Du, mae nifer o drigolion yn hoff iawn o fynd yma am dro gan ei fod yn le diogel a dim traffic. Yn ystod tymor y Gaeaf pan fydd eira bydd teuluoedd a phlant yr ardal yn tyru yma, ac wedi gwneud hyn ers blyneddau. Bydd y datblygiad yma yn cael effaith ar lechyd a Lles corfforol a meddyliol y trigolion.
11. Rydym eisoes wedi nodi ein pryderon o ran y traffic ychwanegol i'r safle, ond rhaid cofio y bydd y traffic yma yn dod i'r pentref ar hyd y ffordd fawr drwy Caeathro neu o Bontrug? Rydym eisoes wedi mynegi ein pryderon i Gyngor Gwynedd ynglyn a cyflwr y ffordd fawr yma yn enwedig o gylchfan Gaeathro i fyny i Bentref Waunfawr – rhan o'r A4087. Bydd yr holl loriau yma yn draffig trwm ychwanegol i'r traffic dyddiol, ac yn bwysau ychwanegol a'r y ffordd. Oes angen cytundeb bod y ffordd yn cael ei chynnal a chadw a'i chadw mewn cyflwr boddhaol yn ystod y datblygiad?
12. Credwn yn GRYF y dylai arolwg o'r ffordd a'r eiddo ar hyd y ffordd i'r safle o fewn ffin y Cyngor Cymuned gael ei wneud CYN cychwyn ar y gwaith a bod cytundeb yn ei le bod unrhyw ddifrod yn cael ei gywiro gan y cwmni.

Rydym yn wir obeithio y bydd y pryderon a'r sylwadau uchod yn cael eu cymryd i ystyriaeth ac y byddwn yn cael y cyfle i fynegi rhain yn bersonol yn y cyfarfod ar yr 8fed o Fawrth.

Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

Yr eiddoch yn gywir

Shoned Rees Griffith
Clerc Cyngor Cymuned Waunfawr

c.c. Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd, Ffordd y Cob, Pwllheli

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Ty Awelog, Waunfawr, CAERNARFON, Gwynedd. LL55 4AZ.
Clerc: Shoned Rees Griffith ☎ 01286 650136 ✉ griffith.tyawelog@btinternet.com

18 April 2016

The Planning Inspectorate
3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol
BS1 6PN

Dear Sir/Madam,

Glyn Rhonwy Pumped Storage EN010072

This is an additional submission by Waunfawr Community Council due to the outcome of important discussions which took place during an emergency village meeting on 14.04.2016.

Having had more time to digest the recent DCO application documentation and the results of our village surveys we believe the 2015 upscaled scheme is likely to have a major negative impact on the landscape, residents, recreation users, tourism and local businesses. It appears the more rigorous examination process required by the UK Planning Inspectorate has forced SPH to provide more realistic figures for construction traffic and more detailed information on the spatial extent of the scheme. The impacts of the new scheme are vastly greater than the ones described by David Holmes in 2012. In sympathy with the residents present at the above mentioned meeting we are concerned about the means and methods SPH have used to navigate their way towards planning consent. Whilst we appreciate David Holmes' offer to meet with us earlier this year (unfortunately a mutually convenient time could not be arranged), there are other occasions from 2012 onwards when concerns stated or voiced to him/SPH by Waunfawr Community Council or individual councillors were not adequately addressed or not responded to at all. In light of the aforementioned points, Waunfawr Community Council wishes to state that we object to the new, expanded and revised scheme.

We believe the impact on our village and the environment, which is important to residents and tourists alike, is too big a sacrifice. The new 2015 plans far exceed the 2012 scheme in terms of landscape impact, resident safety and levels of nuisance. In retrospect we feel that the construction traffic predictions provided at the community meetings in 2012 were vastly underestimated and gave a false impression of the scale of the development. We would like to bring to the attention of the ExA that the 2012 daily construction traffic forecast for Ffordd Cefn Du during a typical construction month was 41 PCUs whilst the forecast in the 2015 DCO is 195 PCUs, despite written assurances from David Holmes/QBC/SPH that nothing above ground would change in the larger scheme. We therefore suspect documents and assurances provided by the developer are misleading and we are extremely worried about what will happen to our village, should this development go ahead.

We object to the whole scheme as set out in the 2015 DCO application because of its overall

landscape and community impacts relative to the overall importance of the scheme. We strongly object to the routing of construction traffic through Caernarfon, Ceunant and Waunfawr. We urge the developer and the ExA to make alternative access plans, the most straightforward of which would be a temporary track directly between Q6 and Q1 making use of existing slate piles for landscaping. We are aware that SPH claims that a number of organisations have suggested that they would not favour an access route through the existing Glyn Rhonwy development site to Q1. We question the validity of these claims and stress the far greater nuisance level of construction traffic routed through villages a few metres from people's houses compared to an access track within an industrial compound. We would like to see evidence of the communications and the decision by each organisation as it would be a shame if a decision to route heavy construction through Caernarfon and Waunfawr was based on a fallacy.

We would therefore strongly suggest SPH provides an assessment of alternative routes. If the access through Waunfawr is still to be considered, in the interests of our village we would have to specify a number of conditions which should be met that would go some way towards mitigating the suffering of the residents located directly along the access route, recreational hill users and those who use the road network in and surrounding the village.

With a scheme of this magnitude there is considerable concern over the depreciation of properties and whether residents will have to relocate for the duration of the scheme. SPH's mitigation measures are so far vague and leave residents concerned about their safety and blight of their homes. We ask that the ExA stipulates that a fund is set aside by the developer to cover blight. We have been informed that local estate agents suggest that during the construction period depreciation of homes in the vicinity could be at least 25%. Assuming the 56 houses along the access route have an average value of £200,000 that would require a retention fund of approx. £3M in addition to a fund for any damage to property. This fund could then be accessed to cover the depreciation should residents feel the need to leave the area during this time. Alternatively this could be utilised by residents if they wish to rent elsewhere during the construction phase. There is also concern that if the road is allowed to be widened this may set a precedent for further applications for potentially unsuitable or unsympathetic developments along the Cefn Du road. A widening of the road is also likely to bring additional fast traffic on to a road where the speed limit is already being observed by residents as being breached – thereby causing hazards to pedestrian and road user safety and adding to the depreciation of residences along the access track. Any of the funds remaining after any residents' claims will be given to the community of Waunfawr.

Proper mitigation of these affects would thus be extremely costly to the developer and we strongly suggest they investigate more thoroughly alternative routes to Q1 to avoid unnecessary nuisance to local communities.

Yours sincerely

Shoned Rees Griffith
Waunfawr Community Council Clerk

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Ty Awelog, Waunfawr, CAERNARFON, Gwynedd. LL55 4AZ.
Clerc: Shoned Rees Griffith ☎ 01286 650136 ✉ griffith.tyawelog@btinternet.com

18 Ebrill 2016

Yr Arolygiaeth Gynllunio
3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol/ Bryste
BS1 6PN

Annwyl Syr/Fadam,

Storfa Bwmp Glyn Rhonwy EN010072

Cyflwyniad ychwanegol yw hwn gan Gyngor Cymuned Waunfawr oherwydd yr hyn a ddeilliodd o drafodaethau pwysig a ddigwyddodd yn ystod cyfarfod brys yn y pentref ar 14.04.2016.

Wedi cael mwy o amser i ystyried dogfennau cais diweddar DCO a chanlyniadau arolwg a wnaethpwyd gan drigolion ffordd Cefn Du, credwn y bydd cynllun 2015 sydd ar raddfa fwy yn debyg o gael effaith negyddol sylweddol ar y tirwedd, trigolion, defnyddwyr hamdden, twristiaeth a busnesau lleol. Ymddengys bod y broses archwilio fwy cadarn a fynnir gan Arolygiaeth Gynllunio'r DU wedi gorfodi SPH i ddarparu ffigyrau mwy realistig am y traffig adeiladu a gwybodaeth fanylach am faint gofodol y cynllun. Mae effeithiau'r cynllun newydd yn fwy o lawer na'r rhai a ddisgrifiwyd gan David Holmes yn 2012. Yn unol â theimladau'r trigolion oedd yn bresennol yn y cyfarfod uchod, yr ydym yn pryderu am y dulliau a'r ffyrdd a ddefnyddiwyd gan SPH i lywio eu ffordd tuag at ganiatâd cynllunio. Er ein bod yn gwerthfawrogi cynnig David Holmes i gyfarfod â ni yn gynharach eleni (yn anffodus, ni fu modd trefnu amser oedd yn gyfleus i'r ddwy ochr), bu achlysuron eraill o 2012 ymlaen pryd mynegwyd pryderon wrtho ef / SPH gan Gyngor Cymuned Waunfawr neu gynghorwyr unigol ni chafwyd ymateb digonol neu lle na chafwyd ymateb o gwbl. Yng ngoleuni'r pwyntiau uchod, dymuna Cyngor Cymuned Waunfawr ddatgan ein gwrthwynebiad i'r cynllun newydd a ddiwygiwyd ac a ehangwyd.

Credwn fod yr effaith ar ein pentref a'r amgylcheddol, sy'n bwysig i drigolion a thwristiaid fel ei gilydd, yn ormod o aberth. Mae cynlluniau newydd 2015 yn fwy o lawer na chynllun 2012 o ran effaith ar y tirwedd, diogelwch y trigolion a lefelau o niwsans. O edrych yn ôl, teimlwn fod y rhagolygon am draffig adeiladu a gyflwynwyd yn y cyfarfodydd cymunedol yn 2012 wedi tanamcangyfrif yn enbyd, a'u bod yn rhoi camargraff o raddfa'r datblygiad. Carem ddwyn i sylw'r ExA fod y rhagolygon traffig adeiladu dyddiol yn 2012 am Ffordd Cefn Du yn ystod mis nodweddiadol o adeiladu yn 41 PCU, tra bod y rhagolygon yn DCO 2015 yn 195 PCU, ar waethaf sicrwydd ysgrifenedig gan David Holmes/QBC/SPH na fyddai dim uwchben y ddaear yn newid yn y cynllun mwy. Yr ydym yn amau felly fod dogfennau a sicrwydd a roddwyd gan y datblygwr yn gamarweiniol, ac yr ydym yn bryderus dros ben ynglŷn â'r hyn fydd yn digwydd i'n pentref petai'r datblygiad hwn yn mynd rhagddo.

Yr ydym yn gwrthwynebu'r cynllun cyfan fel y mae wedi ei osod allan yng nghais DCO 2015 oherwydd ei effeithiau cyffredinol ar y tirwedd a'r gymuned yng nghyswllt pwysigrwydd cyffredinol y cynllun. Gwrthwynebwn yn gryf gyfeirio traffig adeiladu trwy Gaernarfon, Ceunant a Waunfawr. Buasem yn annog y datblygwr a'r ExA i lunio cynlluniau mynediad eraill - yr un mwyaf uniongyrchol fyddai trac dros dro yn uniongyrchol rhwng Q6 a Q1 gan wneud defnydd o'r tomeni llechi presennol i dirwedd. Gwyddom fod SPH yn honni bod nifer o fudiadau wedi awgrymu na fuasent o blaid llwybr mynediad trwy safle datblygiad presennol Glyn Rhonwy at Q1. Amheuw'n ddilysrwydd yr honiadau hyn, gan bwysleisio lefel niwsans uwch o lawer y traffig adeiladu sy'n cael ei gyfeirio trwy bentrefi rai metrau o dai pobl o gymharu â thrac mynediad y tu mewn i lain diwydiannol. Carem weld tystiolaeth o'r ohebiaeth a phenderfyniad pob mudiad, gan y buasai'n drueni petai'r penderfyniad i anfon traffig adeiladu trwm trwy Gaernarfon a Waunfawr yn seiliedig ar anwiredd.

Awgrymwn yn gryf felly y dylai SPH ddarparu asesiad o lwybrau eraill. Os bydd y ffordd trwy Waunfawr yn dal i gael ei hystyried, er lles ein pentref byddai'n rhaid i ni osod nifer o amodau i'w cwrdd fyddai'n mynd beth o'r ffordd tuag at liniaru dioddefaint y trigolion sy'n byw ar hyd y ffordd, y sawl sy'n defnyddio llwybrau'r mynydd i hamddena, a'r sawl sy'n defnyddio rhwydwaith y ffyrdd yn y pentref a'r cylch.

Gyda chynllun o'r maint hwn, mae cryn bryder ynghylch colli gwerth eiddo ac a fydd yn rhaid i'r trigolion symud tra pery'r cynllun. Hyd yma, mae mesurau lliniaru SPH yn niwlog, ac yn peri pryder i'r trigolion am eu diogelwch a malltod ar eu cartrefi. Gofynnwn i'r ExA fynnu bod y datblygwr yn neilltuo cronfa i dalu iawn am falltod. Dywedwyd wrthym fod gwerthwyr tai lleol yn awgrymu, yn ystod y cyfnod adeiladu, y gallai gwerth tai yn y cyffiniau ostwng o 25% o leiaf. A rhagdybio fod gan y 56 tŷ ar hyd y llwybr mynediad werth cyfartalog o £200,000, byddai gofyn am gronfa gadw o ryw £3M yn ychwanegol at gronfa i dalu am unrhyw ddifrod i eiddo. Gellid defnyddio'r gronfa hon i dalu am y gostyngiad mewn prisiau petai'r trigolion yn teimlo y dylent adael yr ardal yn ystod y cyfnod. Dewis arall fyddai i'r trigolion ddefnyddio'r gronfa i rentu rhywle arall dros y cyfnod adeiladu. Mae pryder hefyd, petai'r ffordd yn cael ei lledu, y gallai hyn osod cynsail am geisiadau pellach am ddatblygiadau anaddas neu anghydnaws ar hyd ffordd Cefn Du. Mae lledu'r ffordd hefyd yn debygol o ddwyn mwy o draffig cyflym ar hyd ffordd lle dywed y trigolion fod y cyfyngiad cyflymder eisoes yn cael ei dorri – a byddai hyn yn peryglu cerddwyr a defnyddwyr y ffyrdd, ac yn gostwng gwerth tai ar hyd y ffordd yn fwy fyth. Byddai unrhyw arian fyddai'n weddill yn y gronfa yn cael ei roi i gymuned Waunfawr.

Byddai lliniaru'r effeithiau hyn yn gostus iawn i'r datblygwr ac awgrymwn yn gryf y dylent edrych yn fwy trwyadl i ffyrdd eraill at Q1 i osgoi niwsans diangen i gymunedau lleol.

Yr eiddoch yn gywir

Shoned Rees Griffith
Clerc Cyngor Cymuned Waunfawr

